Eisteddfod Llanfihangel-ar-Arth a'r Plwyf
1/3/2025

LLENYDDIAETH AGORED *DYDDIAD CAU: 15/02/25*

Rhoddir cadair i enillydd y gystadleuaeth Telyneg
DISGWYLIR I'R LLENOR BUDDUGOL FOD YN BRESENNOL - Gweler rheol 4
Rhoddir beirniadaeth ysgrifenedig os yw'r ymgeisydd yn amgáu amlen wedi'i chyfeirio â stamp arni gyda'r cais

47. Telyneg mewn mydr ac odl heb fod dros 24 o linellau: Atgofion	**£20**
48. Cân Ysgafn heb fod dros 30 o linellau: Agored	**£20**
49. Cerdd Rydd heb fod dros 30 o linellau: Y Daith	**£20**
50. Englyn: Cymwynas	**£20**
51. Limrig sy'n cynnwys y llinell - "Awn eto am drip i Dŷ Ddewi"	**£20**
52. Brawddeg ar y gair MIHANGEL	**£20**
53. Erthygl addas ar gyfer Papur Bro: Y Farchnad Fwyd	**£20**
54. Stori Fer heb fod dros 2,000 o eiriau: Dathlu	**£20**

Rhoddir Cwpan Coffa Gwilym Walters i'r darn gorau o Ryddiaith

55. Darn hyd at 200 o eiriau i ddysgwyr: Cymro/Cymraes ydw i ***Written piece up to 200 words for Welsh learners***	**Cwpan Her a £20**	**£15**	**£10**

TLWS YR IFANC:

DISGWYLIR I'R LLENOR BUDDUGOL FOD YN BRESENNOL - Gweler rheol 4

56. Dan 25 oed: Un darn o lenyddiaeth mewn unrhyw ffurf (e.e cerdd, stori, ymson, portread, deialog ac ati), hyd at 2,000 o eiriau. *Bydd gofyn i'r beirniad argymell hyd at 3 darn o waith haeddiannol (gan gynnwys yr enillydd) i'w gynnig i Gymdeithas Eisteddfodau Cymru ar gyfer cystadleuaeth Tlws yr Ifanc yn Eisteddfod Genedlaethol Wrecsam 2025. Rhoddir £200 i enillydd y gystadleuaeth honno.*	**Tlws a £75**	**£50**	**£25**

3. <u>Dylai pob cais yn yr Adran Lenyddiaeth gael ei anfon at y Cyd-ysgrifennydd: Margaret Bowen, Wernmacwydd, Llanfihangel-ar-arth, Pencader, Sir Gâr SA39 9LB, erbyn 15/02/25.</u> Rhaid i bob cais ddangos teitl y gystadleuaeth a'r ffugenw. Gyda phob cais rhaid cynnwys amlen dan sêl gyda theitl y gystadleuaeth, y ffugenw, enw, cyfeiriad, rhif ffôn a/neu e-bost y cystadleuydd wedi'u llenwi oddi mewn. Rhowch y ffugenw a theitl y gystadleuaeth ar yr amlen. Gall ceisiadau gael eu hanfon hefyd at **<u>llaa@steddfota.org</u>** ond rhaid cynnwys y manylion uchod.

<u>4. Disgwylir i'r bardd neu lenor buddugol yng nghystadlaethau'r Gadair a Thlws yr Ifanc fod yn bresennol ac mae hawl gan y Pwyllgor i atal y wobr os nad yw'r enillydd yn bresennol yn yr Eisteddfod.</u>